Lle Natur Cymunedol Clocaenog

Disgrifiad o Luniau i Bobl Ddall

Mae'r Safle Natur Cymunedol arfaethedig ar safle'r hen ysgol. Byddai dau bwynt mynediad. Byddai'r mynediad cyntaf o'r lôn ar ochr Rhuthun i adeilad yr hen ysgol, ochr yn ochr â'r bont ffordd dros Nant y Cefn. Byddai'r ail fynediad o'r Tir Hamdden Cymunedol.

Ym mhen draw'r safle sydd agosaf at Rhuthun, byddai'r coetir ymylol presennol yn cael ei wella trwy blannu rhai coed ychwanegol. Byddai dôl blodau gwyllt yn cael ei chreu yn y llannerch ganolog a byddai rhai meinciau'n cael eu darparu i ganiatáu i ymwelwyr eistedd a mwynhau'r Safle Natur Cymunedol.

Ym mhen draw'r safle agosaf at Glawddnewydd, lle'r oedd maes chwarae'r ysgol yn arfer bod, byddai rhai seddi ychwanegol yn cael eu darparu - o bosibl yn cynnwys boncyffion ar gyfer grwpiau o blant ysgol. Byddai pwll bychan yn cael ei greu a gwrych newydd yn cael ei blannu ar hyd y ffin â thir fferm cyfagos i fyny'r allt.